

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2010-2013



RHESTR CYNNWYS

DATGANIAD.....	2
NODYN CYFFREDINOL A RHAGAIR.....	3
Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU DDWYIEITHOG.....	4
Y CYNLLUN DIWYGIEDIG HWN YN EI GYD-DESTUN.....	4
AGWEDD YR AWDURDOD AT DDWYIEITHRWYDD.....	6
GWEITHREDU'R CYNLLUN.....	6
Y DYLETSWYDDAU A'R NODAU CORFFORAETHOL.....	7
ESBONIO'R DIWYG.....	9
POLISIÄU.....	9
CYFLWYNO GWASANAETHAU.....	15
Y DDELWEDD GYHOEDDUS.....	22
Y GWEITHLU.....	25
PARTÏON ERAILL.....	29
CRYNODEB O FATERION CYDYMFFURFIO.....	30
MANYLION CYFRIFOLDEBAU A CHYSYLLTU.....	33
CRYNODEB O GYNLLUNIAU GWELLA.....	34
DANGOSYDDION PERFFORMIAD.....	38

Lluniwyd yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Datganiad

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi mabwysiadau'r egwyddor y bydd,
wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru,
yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu'r
egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

NODYN CYFFREDINOL A RHAGAIR

Nodyn Cyffredinol

Mae unrhyw gyfeiriad at yr 'Awdurdod Tân ac Achub' a'r 'Gwasanaeth Tân ac Achub' yn y Cynllun hwn yn cyfeirio'n benodol at 'Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru' a 'Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru', sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn y chwe sir yng Ngogledd Cymru.

Mae unrhyw gyfeiriad at 'ddwyieithrwydd' yn y Cynllun hwn yn cyfeirio'n benodol at y Gymraeg a'r Saesneg.

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar **DATE to be inserted**. Cafodd Cynllun Iaith gwreiddiol y Gwasanaeth Tân ac Achub ei gyhoeddi yn 1999.

Rhagair

Dyma drydydd Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac mae'n adeiladu ar ein dau gynllun cyntaf a gyhoeddwyd yn 1999 ac yn 2006.

Ers cyhoeddi ein cynllun diwethaf, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth fynd ati i wella'r gwasanaethau dwyieithog yr ydym yn eu darparu. Cyrhaeddwyd cerrig milltir pwysig yn ein hamcan o roi sbardun ac egni newydd yn ein gweithgarwch, ac mae proffil y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth yn wir wedi codi.

Ond mae cryn ffordd i fynd eto, ac mae'r cynllun newydd yn amlinellu ein Strategaeth Sgiliau Iaith sydd wedi ei seilio ar ffordd raddol o fynd ati i gyflawni ein nodau dros y tair i bum mlynedd nesaf. Ein strategaeth yw sefydlu dealltwriaeth eglur o'r materion ieithyddol o fewn ein Gwasanaeth, meithrin gweithlu sydd â meddwl agored wrth ymdrin â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, yn ogystal ag ieithoedd a diwylliannau eraill, a gosod sylfeini cadarn i'r ffordd yr ydym yn ymdrin â dwyieithrwydd, a fydd yn parhau i weld gwelliant graddol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu gwella ein hagwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle – yn ogystal â'r gymuned a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i bobl Gogledd Cymru. Trwy hyn, rydym yn gobeithio cael gwasanaeth cwsmer sydd hyd yn oed yn well, a chodi lefel sgiliau ein gweithlu trwy eu hannog i ddysgu Cymraeg ac i ddefnyddio eu sgiliau wrth gyfathrebu.

Ein nod yw meithrin Gwasanaeth sydd yn hollol mewn cytgor â'r cyhoedd Cymraeg ei iaith, ac sy'n dangos cwrtseisi ac empathi tuag at iaith a diwylliant Cymru a fydd yn sicrhau bod ein cymunedau'n derbyn gwasanaeth prydlon, cwrtais, cyfartal a llwyr, wedi ei ddarparu gan weithlu bodlon a hyderus.

(add signature)

Y Cyng. Sharon Frobisher

Cadeirydd

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

(add signature)

Simon Smith

Prif Swyddog Tân

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU DDWYIEITHOG

Yn Chwefror 2003, cyhoeddwyd 'Iaith Pawb' gan Lywodraeth y Cynulliad, sef dogfen bolisi strategol a 'chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog'. Hwn oedd y fframwaith cenedlaethol cyntaf erioed a gynlluniwyd ar lefel lywodraethol ar gyfer gwarchod, cynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae'r bennod olaf yn cynnwys yr apêl ganlynol:

Ond nid yw camau sefydliadol neu wleidyddol yn ddigon ar eu pen eu hunain i achub yr iaith. Rhaid i'r gwaith o gynnal yr iaith fod yn gydymdrech ar ran Llywodraeth Cymru a phobl Cymru. Nid yw'r strwythurau a ddisgrifir yn y ddogfen hon ar gyfer bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu yn y blynyddoedd sydd i ddod yn llai pwysig i lwyddiant ein strategaeth na'r mesurau rhagweithiol a ddisgrifir. Cynlluniwyd y strwythurau hynny i rannu perchnogaeth a chyfrifoldeb dros dynged yr iaith. Ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd cyfraniad cyrff eraill - yn awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, y sectorau preifat a gwirfoddol. Ond yn y pen draw os yw'r iaith i oroesi rhaid i unigolion gymryd perchnogaeth ohoni - sy'n golygu cael pobl i gymryd rhan mewn mentrau cymunedol i hyrwyddo'r iaith, rhieni yn trosglwyddo'r iaith i'w plant ac unigolion yn ymroi i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac mewn busnes. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth fod dyfodol cadarnhaol i'r Gymraeg os bydd pobl Cymru yn rhannu ein gweledigaeth. Gyda'n gilydd, gallwn greu Cymru sy'n wirioneddol ddwyieithog.

Rydym ni, yr Awdurdod Tân ac Achub, yn cefnogi nodau'r fframwaith hwnnw, ac yn ystyried bod ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gyfraniad lleol pwysig tuag at wireddu'r strategaeth genedlaethol ehangach honno.

GOSOD Y CYNLLUN DIWEDDARAF HWN YN EI GYD-DESTUN

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwasanaethu amrywiaeth gyfoethog o gymunedau, a threftadaeth naturiol a diwylliannol pwysig yn gefn iddynt.

Mae ardaloedd y chwe awdurdod unedol, sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn rhannu ystod o nodweddion tebyg, ond mae gan bob un eu proffiliau eu

hunain, mewn rhanbarth sy'n gyfuniad o ganolfannau poblog neu ddiwydiannol a chymunedau gwledig neu led-wledig.



Y defnydd o'r Gymraeg yn y Gogledd

Yn ôl gwybodaeth o gyfrifiad 2001, o blith 641,286 o bobl sy'n deirblwydd oed a throsodd ac yn byw yng Ngogledd Cymru, roedd 225,213 (35%) ohonynt yn gallu naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Roedd nifer uwch eto – o leiaf 232,125 (36%) – yn dweud eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar.

Pobl gydag o leiaf un sgil yn y Gymraeg

	Pawb 3 oed a throsodd	Sy'n deall Cymraeg llafar	Yn siarad Cymraeg	Yn darllen Cymraeg	Yn ysgrifennu Cymraeg	Sydd nail ai'n siarad yn darllen neu'n ysgrifennu Cymraeg (%)
Gwynedd	112,800	77,966	77,846	72,276	69,264	79,184 (70.2%)
Ynys Môn	64,679	41,220	38,983	35,510	33,246	39,885 (61.7%)
Conwy	106,316	37,112	31,298	29,085	26,077	33,839 (31.8%)
Sir Ddinbych	90,085	28,146	23,760	22,431	19,858	26,119 (29.0%)
Sir y Fflint	143,382	24,630	20,559	20,611	17,687	24,634 (17.0%)
Wrecsam	124,024	23,051	18,105	18,386	15,280	21,822 (17.6%)
Cyfansymiau	641,286	232,125	210,501	198,299	181,412	225,213 (35.1%)

Y cynnydd a ragwelir yn y defnydd o'r Gymraeg

Mae nifer y bobl sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn edrych fel petai am gynyddu. Mae data cyfrifiad 2001 yn dangos bod tua 500,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (21% o'r boblogaeth), a'r disgwyl yw y bydd y ffigyrau hyn yn codi pan gynhelir yr arolwg nesaf ymhen dwy flynedd, yn enwedig ymhlith pobl ifanc lle mae'r twf mwyaf i'w weld.

Mae hyn yn wir am y chwe sir. Fel gwasanaeth, felly, mae angen inni fod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd y galw gan y cyhoedd am wasanaethau dwyieithog yn sicr o gynyddu.

Canran y bobl sy'n deirblwydd oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg

Hyd yn oed yn yr ardaloedd ar y ffin â Lloegr, lle mae'r canran isaf o rai 3 - 15 mlwydd oed sy'n siarad Cymraeg, mae'r canrannau o fewn ffiniau cymunedau unigol yn dal yn gymharol uchel. Yn Sir y Fflint, mae'r canran yn amrywio rhwng 29% a 46%. Yn Wrecsam, mae'n amrywio rhwng 17% a 59%.

Mewn arolwg a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn y flwyddyn 2000, cafwyd bod 75% o'r rhai a gymerodd ran o'r farn fod gan y Gymraeg ddyfodol fel iaith fyw hyd y gellir rhagweld. At hynny, roedd canran uchel yn rhagweld cynnydd yn y galw am sgiliau dwyieithog mewn addysg, yn y sector llywodraeth leol ac yn y gwasanaeth iechyd.

AGWEDD YR AWDURDOD AT DDWYIEITHRWYDD

Rydym ni, yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd yr iaith o ddifrif ers blynyddoedd.

Trwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ateb disgwyliadau'r cyhoedd ac i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, rydym hefyd yn cydnabod bod manteision cadarnhaol i'w cael o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

Mae arbed bywydau a lleihau risg wrth galon cenhadaeth yr Awdurdod – mae'r iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Rydym yn ceisio darparu gwasanaethau yn deg i bob ardal yng Ngogledd Cymru, gan gymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau sydd rhyngddynt.

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd at ein staff hefyd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw yng Ngogledd Cymru, ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

GWEITHREDU'R CYNLLUN

Y Prif Swyddog Tân sy'n gyfrifol am weithrediad llwyddiannus y Cynllun Iaith Gymraeg, ac mae'n dirprwyo'r rheolaeth o ddydd i ddydd i un o'i Brif Swyddogion Tân Cynorthwyol.

Sefydlwyd Gweithgor Iaith mewnol, yn gymorth i yrru'r gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun hwn. Mae aelodau'r gweithgor hwn yn dod o blith staff, sydd oherwydd eu rôl a / neu eu swydd o fewn y sefydliad, mewn sefyllfa dda i ddylanwadu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â'r iaith.

Hefyd, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arferion da gyda chynrychiolwyr o Wasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru sy'n gyfrifol am faterion y Gymraeg trwy Grŵp Iaith Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân.

DYLETSWYDDAU'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

Ymgorfforir prif ddyletswyddau'r Awdurdod Tân ac Achub yn Neddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, sef:


- Hybu diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân
- Rhoi cyngor, ar gais, ynghylch sut i atal tanau a rhwystro eu lledaeniad mewn adeiladau ac eiddo eraill, ac ynghylch y ffyrdd i ddianc mewn achos o dân
- Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyn bywyd ac eiddo mewn achos o dân
- Gwneud darpariaeth ar gyfer achub ac amddiffyn pobl rhag niwed difrifol mewn achos o ddamweiniau ar y ffyrdd
- Ymateb i argyfyngau neu ddigwyddiadau eraill fel y bo'r angen i amddiffyn pobl, eiddo, neu'r amgylchedd.

Nodau corfforaethol

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi datblygu cyfres o bum nod corfforaethol sy'n crynhoi'r hyn y mae'n ei ystyried yn ganolog i'w holl weithgarwch:

- Atal tanau damweiniol a maleisus
- Amddiffyn pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân a pheryglon eraill
- Amddiffyn y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag cael eu niweidio gan dân a pheryglon eraill
- Dod o hyd i ffyrdd i wella er mwyn ateb disgwyliadau'r gymuned
- Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Strwythur Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflogi fymryn dros 1,000 o bobl mewn nifer o wahanol swyddi. Mae tua 56% ohonynt yn ddiffoddwyr tân sy'n gweithio ar y 'System Dyletswydd Ran Amser' - sef dynion a merched sydd â'u prif gyflogaeth y tu allan i'r Gwasanaeth, ond sy'n gwneud gwaith ymateb ac atal yn eu cymuned leol.

Mae tua 28% o'r gweithlu yn 'ddiffoddwyr tân amser cyflawn'. Dyma bobl sydd, yn ogystal ag yn diffodd tanau, efallai'n ymwneud â dyletswyddau megis atal tanau, rheoli, neu ddatblygu staff. Mae bron i 13% yn staff di-lifrai sy'n gweithio mewn nifer o rolau arbenigol megis rheoli'r fflyd ac ystadau, rheoli adnoddau dynol, cyllid, iechyd a diogelwch, datblygu polisïau, gweinyddu cyffredinol a rolau ategol. Mae 3% arall yn cael eu cyflogi fel staff yr Ystafell Reoli, a'r rhan fwyaf o'r rheini'n ymwneud yn bennaf â thrin galwadau ffôn brys.

Mae'r Gwasanaeth ei hun wedi ei strwythuro'n dilyn ffiniau ardaloedd yr awdurdodau unedol yng Ngogledd Cymru. Mae gwasanaethau atal tân yn lleol yn cael eu darparu o saith swyddfa sirol, gydag un ychwanegol yng Ngwynedd oherwydd ei maint yn ddaearyddol.

Mae deugain a phedair o orsafoedd tân trwy Ogledd Cymru – Amlwch sydd fwyaf i'r gogledd, Aberdyfi sydd fwyaf i'r de, Abersoch sydd fwyaf i'r gorllewin, a Wrecsam sydd fwyaf i'r dwyrain.

Mae prif bencadlys y gwasanaeth oddi ar ffordd ddeuol yr A55 ar Barc Busnes Llanelwy.

I'r gorllewin o'r fan honno, yng Nghyffordd Llandudno, mae gweithdai cerbydau a'r storfa ganolog.

Mae'r brif ganolfan hyfforddi yn y Rhyl. Mae'r brif Ystafell Reoli yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd â Heddlu Gogledd Cymru ar Barc Busnes Llanelwy.

GAIR AM Y DIWYG

Er mwyn ei gwneud yn haws ei darllen a chyfeirio ati, mae'r adran hon ar ffurf safonol.

Ein hegwyddorion: Dyma le rydym yn nodi ein credoau sylfaenol, yr egwyddorion sy'n ein tywys, a'n nodau sydd gennym ar gyfer y Gwasanaeth yn y pen draw.

Bydd yr egwyddorion sy'n ein tywys yn amlwg yn effeithio ar wahanol agweddau o'r Gwasanaeth.

Gellir gosod yr agweddau hyn dan y penawdau canlynol:

POLISIÄU

CYFLWYNO GWASANAETHAU

EIN DELWEDD GYHOEDDUS

Y GWEITHLU

PARTIÖN ERAILL

Mewn perthynas â phob un o'r pum elfen uchod, byddwn yn edrych ar:

Sut rydym yn dangos ein bod eisoes yn dilyn ein hegwyddorion?

I ba raddau yr ydym yn llwyddo? Sut rydym eisoes yn cyfrannu i wireddu ein gweledigaeth? Pa gyfraniadau eraill yr ydym yn eu gwneud i'r strategaeth gyffredinol ar gyfer Cymru?

Pa gynlluniau sydd gennym ar gyfer gwella?

I ba raddau yr ydym yn dal i weithio tuag at lwyddiant? Pa dasgau sy'n dal ar y gweill, a pha rai sydd eto heb gychwyn?

POLISIÄU

Ein hegwyddorion

Er mwyn cyflwyno, gwella ac ehangu ein gwasanaethau, rydym yn datblygu polisiäu newydd, ac yn cymryd rhan mewn rhaglenni gwaith, cynlluniau a mentrau. O bryd i'w gilydd, rydym yn

diwygio ac yn diweddarau ein polisïau er mwyn ystyried newidiadau yn yr amgylchiadau.

Rydym yn credu y dylai ein polisïau adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru fel y nodir yn Iaith Pawb.

Yn ogystal â sicrhau bod ein polisïau'n dilyn yr egwyddor sy'n ein tywys, sef bod y ddwy iaith yn gyfartal, rydym yn credu y dylai ein polisïau, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol, fod yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn unol ag Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ni ddylai mabwysiadu polisi newydd arwain at orfod gwneud newidiadau i unrhyw ran o'n Cynllun Iaith Gymraeg, heb yn gyntaf ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch y newid arfaethedig.

1. Datblygu polisïau newydd

Rydym eisoes wedi gwneud trefniadau i gyfleu gwybodaeth am ein polisïau i holl staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru trwy ein system polisïau mewnol (SAPPOs).

Yn y SAPPO cyntaf un - Adran 1, Rhif 1, - ceir cyfarwyddiadau ynghylch y gweithdrefnau cywir ar ddatblygu SAPPOs newydd. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i ystyried y goblygiadau i'r Gymraeg.

Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol nid yn unig i ddatblygu polisïau. Wrth ystyried mentrau eraill, bydd y goblygiadau i'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried fel mater o drefn gan yr unigolion neu'r grwpiau sydd â'r dasg o gynllunio neu gymryd rhan yn y mentrau hynny.

Mae hyn, felly, yn prif-ffrydio'r elfen ieithyddol i bob menter a pholisi newydd. Y Gweithgor Iaith mewnol sy'n gyfrifol am graffu ar bolisïau newydd a newidiadau i bolisïau er mwyn sicrhau eu bod wedi eu llunio yn unol â nodau'r Cynllun. Y Prif Swyddog Tân, trwy'r Grŵp Gweithredol, sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod pob SAPPO yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.

Polisi sgiliau iaith

Y cam mwyaf arwyddocaol yn fwy diweddar tuag at hyrwyddo gwasanaeth dwyieithog, sydd wedi ei gyflawni ers cyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg diwethaf, fu mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Lansiwyd ein Strategaeth Sgiliau Iaith ddechrau 2009, a nodwyd egwyddorion sylfaenol y strategaeth yn un o ddogfennau polisi newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, sef (SAPPO Rheol 1 Adran 8).

Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn ofyniad statudol i ddarparu modd i ymateb yn briodol i ymrwymadau'r Gwasanaeth sydd yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn gymorth i yrru'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ei flaen trwy ddarparu isadeiledd cynlluniedig a strategol ar gyfer ei roi ar waith yn y dyfodol.

Yn hanfodol, mae hyn yn golygu staffio'r Gwasanaeth yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn bod modd darparu gwasanaethau sy'n gyfartal o ran ansawdd, cyfleuster a lled, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n golygu bodloni anghenion gwasanaethau lle mae prinder siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu, a hynny trwy fabwysiadu a gweithredu'r strategaeth hon.

Y manteision i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o fabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith yw y bydd yn:

- Bodloni Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru 2008-2011 sy'n datgan y dylai Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ddarparu gwasanaeth dwyieithog sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu cymunedau
- Bodloni Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a lanswyd yn Ionawr 2008, ac sy'n ymorol am y saith maes cydraddoldeb, gan ganolbwyntio ar gender, hil, anabledd, yr iaith Gymraeg, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd a chred
- Darparu dull o flaengynllunio er mwyn cael, trefnu a datblygu Cynllun Iaith Gymraeg statudol
- Bod yn ddiuedd, yn wrthrychol ac yn effeithiol
- Cynorthwyo i leihau risgiau, megis methiant i gael cydraddoldeb a safonau gofal cwsmer, methiant i ddangos empathi ac i adnabod anghenion y cwsmer, cwynion ac anfodlonrwydd

Wrth lunio'r Strategaeth Sgiliau Iaith, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mabwysiadu'r amcanion a argymhellir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n golygu cynnal awdit parhaus o ofynion dwyieithog gweithleoedd a swyddi, cymharu'r anghenion o ran sgiliau gyda'r adnoddau presennol o ran sgiliau, a gallu cau'r bwch rhwng y ddau beth, yn ogystal chael trefniadau priodol ar gyfer monitro ac adrodd ynghylch gweithrediad y strategaeth.

Cynhaliwyd awdit o ofynion dwyieithog gweithleoedd a swyddi o fewn y Gwasanaeth, ac adnabuwyd pa rolau o fewn y Gwasanaeth y dylid eu dynodi'n rhai â'r Gymraeg yn hanfodol. Ers hynny, mae'r Gwasanaeth wedi neilltuo galluoedd Lefel 1 - 5 ALTE, sef Cymdeithas y Profwyr Iaith yn Ewrop, i bob math o rôl, gan roi gwell dealltwriaeth o safon y Gymraeg sydd ei hangen.

Cynhaliwyd awdit o sgiliau dwyieithog y staff presennol, ac mae tua 80% o staff y Gwasanaeth wedi nodi pa lefel o Gymraeg sydd ganddynt yn eu tyb hwy. Ers hynny, mae'r wybodaeth wedi cael ei sefydlu'n ofyniad yn y broses Adolygiad Datblygiad Unigol ar gyfer pob aelod o'r staff, ac mae bellach yn cael ei ddiweddarau'n barhaus.

Mae'r Gwasanaeth yn cymharu anghenion swyddi o ran sgiliau gyda'r adnoddau presennol o ran sgiliau, a hynny er mwyn canfod pa waith sydd ei angen i lenwi'r bwlch.

Y nod yw cau'r bwlch hwn yn raddol, gan gael persbectif tymor hir a thrwy sefydlu arferion penodol mewn hyfforddiant a chefnogaeth i staff, recriwtio, ad-drefnu ac adleoli staff. Bydd y gwaith yn golygu:

- Cynyddu nifer y staff sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn hyderus, a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau'n amlach. Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
- O Ionawr 2009 ymlaen, bydd gofyn i bob aelod newydd o'r staff allu dangos sgiliau cwrteisi sylfaenol (Lefel 1) yn y Gymraeg wrth ymuno â'r Gwasanaeth
- O Ionawr 2010 ymlaen, bydd pob aelod newydd o'r staff yn cael cyfnod penodol o amser wedi iddynt gael eu penodi i gyrraedd Lefel 2 (gan ddefnyddio CD hyfforddiant Level 2 ond ystyriaeth o gwrs hyfforddiant os oes angen)
- Bydd staff presennol yn cael eu hannog i gyrraedd Lefel 1 yn wirfoddol fel rhan o'r cwrs ymwybyddiaeth. Bydd staff presennol sydd â chyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn cael eu hannog i gyrraedd Lefel 4/5 trwy hyfforddiant dwys.
- O Ionawr 2010 ymlaen, bydd gofyn i staff sy'n ceisio dyrchafiad o fewn y Gwasanaeth lwyddo yn Lefel 2 er mwyn bod yn llwyddiannus
- Bydd cyrsiau hyfforddi yn galluogi staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg. Bydd Coleg Llysfasi yn darparu cyrsiau hyfforddi Lefel 1 a 2, a'r rheini'n cael eu hategu gan CDau Cymraeg (bydd y profion yn cael eu hasesu'n annibynnol gan Goleg Llysfasi). Mae'r profion hyn wedi eu cysylltu ag achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol
- Bydd y Strategaeth Sgiliau Iaith yn cael ei hymgorffori ym mholisi'r Gwasanaeth ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth – gyda golwg ar y Saith Maes Amrywiaeth yng Nghymru sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg.

Bydd y Gwasanaeth yn adolygu ei Strategaeth Iaith yn rheolaidd, gan weithio'n unol â dangosyddion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y gwaith yn golygu cael cofnod manwl o nifer a chanran y staff sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd, a lefel y Gymraeg sy'n angenrheidiol i'r swyddi hynny, cyfran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith, yn ogystal â gallu adnabod yn gywir y staff sy'n gallu siarad Cymraeg – yn ôl adran, graddfa'r swydd a'r gweithle.

Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg, a bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei gydnabod yn sgil.

Bydd y Strategaeth Sgiliau Iaith o fudd i'r staff trwy:

- Drin sgiliau iaith yn union yr un fath ag unrhyw sgiliau eraill a allai fod yn angenrheidiol, yn ddymunol neu'n fanteisiol ar gyfer y swydd
- Darparu ffordd o sicrhau cysondeb o ran y dull o bennu gofynion ieithyddol swyddi
- Gosod pwyslais ar hyfforddi, datblygu a chefnogi staff i wella eu sgiliau a'u gallu i gystadlu yn y farchnad waith yn ehangach.

Mae'r Strategaeth hon yn mynnu bod yn rhaid cael ymrwymiad yn y Gwasanaeth drwyddo draw, ac mae ganddi oblygiadau pellgyrhaeddol. Mae'r pwyslais ar flaengynllunio ac ar gaffael y sgiliau angenrheidiol dros gyfnod o amser – nid newid yn eithafol. Y nod yw gwella'n raddol y gwasanaeth i'r cyhoedd a lefel sgiliau'r staff, a hynny dros y cyfnod 2010 - 2013.

Mae mabwysiadu'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn bolisi o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi golygu bod cryn lawer o waith codi ymwybyddiaeth wedi ei gynnal ers cyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg diwethaf, a hynny er mwyn sicrhau bod ein staff yn ddigon cyfarwydd â chynnwys ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Rydym hefyd wedi codi proffil y Cynllun gydag aelodau etholedig yr Awdurdod Tân ac Achub, ac yn enwedig gydag aelodau newydd sydd wedi ymuno â'r Awdurdod yn fwy diweddar.

Nodwyd y goblygiadau cyfreithiol a'n disgwyliadau dan y Strategaeth Sgiliau Iaith, ac rydym wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu mewnol ac allanol, yn cynnwys ein cylchlythyrau, ein gwefan a'n mewnrwyd ddwyieithog sydd newydd gael ei lansio, a hynny er mwyn tynnu sylw at fanteision ymarferol gweithredu yn ysbryd Deddf yr Iaith Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru. Yn ein polisi newydd, ceir targedau mewnol sy'n cefnogi targedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a nifer y gwasanaethau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Ynghyd â'n hymdrechion i hyrwyddo gwasanaeth dwyieithog, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod bod yn rhaid iddo hefyd anelu at gael gweithle dwyieithog er mwyn cael gwir ddwyieithrwydd yn y sefydliad.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y maes hwn, a bu hynny'n gymorth inni annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Er enghraifft, mae arwyddion dwyieithog a llofnodion dwyieithog i e-byst wedi bod yn norm ers cryn amser, ac mae ein cyhoeddiadau mewnol a

dogfennau megis ein cylchlythyr i'r staff, 'Y Fflam' a 'Diweddariad y Prif Swyddog' wedi hen ennill eu plwy'. Yn fwy diweddar, rydym wedi cyflwyno mewnwyd ddwyieithog ar gyfer y staff, a bellach mae honno hefyd wedi ennill ei phlwy', ac mae ein cyfieithydd mewnol yn wastad wrth law i gynorthwyo gyda cheisiadau am gyfieithiadau gan yr holl staff.

Felly, mae ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ar gyfer 2010-2013 yn mabwysiadu'n ffurfiol ddatganiad polisi mewn perthynas ag hyrwyddo'r defnydd o'r iaith o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a hynny'n seiliedig ar ddiogelu'r iaith drwy gyfrwng mynegiant.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn annog y staff i siarad Cymraeg, ac mae'n cefnogi gwella sgiliau iaith, ymhlith dysgwyr a siaradwyr rhugl. Mae'r Awdurdod yn cefnogi'r defnydd priodol o'r Gymraeg a'r Saesneg yng ngwaith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac yn hwyluso dwyieithrwydd mewnol trwy greu amgylchiadau sy'n caniatáu i'r staff gael dewis iaith wrth gyflawni eu swyddi eu hunain, cyfathrebu ag eraill, derbyn gwasanaethau a chymdeithasu'n anffurfiol.

I'r diben hwn, mae'r Gwasanaeth wedi adnabod dau brosiect y mae'n gobeithio y bydd yn gymorth i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg.

Mae'r cyntaf yn golygu sefydlu hyrwyddwyr yr iaith ymysg y gweithlu, er mwyn bod yn gymorth i bersonoli'r strategaeth ddwyieithog ar lefel leol, ac sy'n awyddus i hyrwyddo'r iaith yn y gweithle.

Yr ail yw cyflwyno dewis iaith mewn cyfarfodydd fel mater o arfer dda, a bydd hyn yn cael ei dreialu mewn un sir i ddechrau ac yn raddol yn cael ei ymestyn i Ogledd Cymru drwyddo draw. Rydym yn cydnabod bod rhai ardaloedd o'r rhanbarth dan ein gofal yn fwy naturiol ddwyieithog na'i gilydd, ac rydym yn gobeithio elwa ar hyn trwy ddefnyddio ein hardaloedd Cymraeg esiampl i gynorthwyo'r ardaloedd eraill lle nad yw'r Gymraeg, efallai, cyn gryfed yn llafar.

Mae mentrau eraill sydd â'r nod o hyrwyddo a hwyluso gweithle dwyieithog i'w cael yn fanylach yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2010-2013, ac mae'r rhain yn cynnwys gwobrau blynyddol i ddysgwyr, defnyddio ein cymeriad cartŵn newydd, sef 'Tanwen', fel 'brand' hawdd ei adnabod ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd, cyflwyno ffurflenni AD dwyieithog a pheynnau cynefino, a defnyddio cyfarchion 'allan o'r swyddfa' electronig dwyieithog.

2. Adolygu'r polisiâu presennol

Mae system ar gyfer adolygu SAPPO's eisoes wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod pob un yn cael ei adolygu wedi cyfnod penodol. Mae'r amledd yn amrywio yn ôl pwnc y SAPPO, ond bob tair blynedd yw hyn fel arfer. Fel rhan o'r adolygiad, rhaid cymryd unrhyw oblygiadau i'r

Gymraeg a'n polisi dwyieithrwydd i ystyriaeth.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Rydym yn ymwybodol y gallem, wrth ganolbwyntio ar gynnwys penodol unrhyw bolisi, gollu cyfle i gyflwyno mesurau a fyddai'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

Oherwydd ein bod yn credu y dylai cynnwys ein holl bolisïau fod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac nid yn ei danseilio, byddwn yn dod o hyd i ffyrdd i wella'r broses ar gyfer adolygu polisïau er mwyn gofalu nad ydym yn colli cyfle i wella yn y ffordd hon, nac mewn perygl o fynd yn groes i Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

CYFLWYNO GWASANAETHAU

Ein hegwyddorion

Rydym yn cydnabod bod gan aelodau o'r cyhoedd, yn cynnwys Aelodau etholedig o'r Awdurdod, hawl i ddewis p'un o'r ddwy iaith i'w defnyddio wrth ddelio â ni, boed hynny yn y gweithle, gartref neu yn y gymuned.

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn codi, ac rydym yn credu y dylem baratoi ar gyfer cynnydd yn nisgwiliadau'r gymuned ohonom o ran y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn y ddwy iaith.

Rydym yn cydnabod mai arfer dda, nid consesiwn yw cynnig dewis iaith i'r cyhoedd. Rydym yn cydnabod bod pobl yn mynegi barn ac anghenion yn well yn eu dewis iaith.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o safon ac ansawdd sydd yr un mor uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1. Hybu diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth wedi ei gynllunio i atal tanau ac atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau

Mae ein polisi presennol yn eglur iawn yn hyn o beth – bydd pob cyhoeddiad neu gyfarfod (yn cynnwys cyfweiliadau ac ymgyrchoedd yn y cyfryngau) sydd ar gyfer y cyhoedd, neu sy'n ymwneud â'r cyhoedd, ar gael yn ddwyieithog.

Rydym yn ymdrechu i lenwi swyddi sy'n ymgorffori elfen o gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd gyda staff dwyieithog, ac rydym wedi llunio canllawiau ynghylch penodi staff i'r swyddi hyn. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn i aelodau o'r staff sy'n ymwneud â rhaglenni ymyrraeth ieuentid a gwaith ataliol ac adsefydlu penodol gyda throseddwyr.

Caiff swyddogion dwyieithog eu hannog i wisgo bathodyn sy'n ei gwneud yn eglur eu bod yn

gallu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Gan fod dyletswyddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn canolbwyntio'n gynyddol ar atal tanau, bydd mwy o waith yn cael ei wneud yn y gymuned. Lle bo staff yn dymuno dysgu Cymraeg, gallwn eu cefnogi gyda'u gwersi.

Rydym yn cyflogi tiwtoriaid diogelwch tân dwyieithog. Mae deunyddiau ar gyfer disgyblion ysgol yn cael eu llunio yn y ddwy iaith. Cynhelir cyflwyniadau diogelwch tân mewn ysgolion yn yr iaith y mae'r ysgol yn ei dewis. Bydd y taflenni sy'n cael eu dosbarthu fel rhan o'r cyflwyniadau hyn ar gael yn y ddwy iaith.

Pan fyddwn yn cynnal digwyddiad neu ymweliad ar y cyd â sefydliadau cyhoeddus neu wirfoddol eraill, byddwn yn annog pawb sy'n cymryd rhan i lunio eu deunyddiau eu hunain yn ddwyieithog.

Diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y system dyletswydd ran amser yw cyfran fawr o'r gweithlu, ac mae gofyn iddynt fod yn byw neu'n gweithio'n agos i'w gorsafoddd tân er mwyn iddynt allu ymateb yn gyflym i alwadau brys fel y bo angen. Yn ddealladwy, oherwydd prinder diffoddwyr tân rhan amser mewn rhai ardaloedd, mae'n anochel nad yw sgiliau dwyieithog yn y gorffennol wedi cael yr un pwys yn y broses recriwtio â phriodweddau corfforol a phriodweddau eraill a bod ar gael i ymateb o fewn yr amser penodedig. At hynny, rydym eisoes yn cyflogi llawer o weithwyr llawn amser sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd fel rhan o'u gwaith, ond nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

Yn ddiweddar, rydym wedi ceisio cynyddu cyfran ein gweithlu trwy Ogledd Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg, a sicrhau bod mwy o aelodau unigol o'r staff wedi dysgu digon o Gymraeg i'w galluogi i ddarparu o leiaf rai o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwnaethpwyd hyn trwy fabwysiadu'n ffurfiol Strategaeth Sgiliau Iaith sydd wedi golygu bod pob aelod o'r Gwasanaeth wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a sicrhau bod pob aelod newydd o'r staff a fydd yn ymuno â'r Gwasanaeth o Ionawr 2009 ymlaen yn gorfod bod yn gallu dangos sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol Lefel 1 – ac o Ionawr 2010, bydd pob aelod newydd o'r staff yn cael cyfnod penodol wedi iddynt gael eu penodi i gyrraedd Lefel 2.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Mabwysiadir y Strategaeth Sgiliau Iaith yn dilyn awdit cynhwysfawr o sgiliau iaith swyddi unigol a grwpiau o swyddi (e.e. criwiau neu wylfeydd), ac rydym bellach yn bwrw ymlaen â phroses o integreiddio'r wybodaeth a dderbyniwyd o'r awdit o sgiliau dwyieithog y staff presennol yn System Integredig Datblygiad y Gwasanaeth (IPDS) ar gyfer pob aelod o'r staff. Bydd hyn yn ein galluogi i baru gofynion sgiliau iaith swyddi yn wrthrychol a systematig gyda sgiliau iaith unigol y staff, a bydd hyn, gobeithio, yn gwella ein gallu i sicrhau y gallwn, pan fo'r Gwasanaeth yn dod yn rhan o fentrau a gweithgareddau newydd yng Ngogledd Cymru,

wneud hynny'n ddwyieithog.

2. Rhoi cyngor, ar gais, ynghylch ffyrdd i atal tanau, a rhwystro eu lledaeniad mewn adeiladau ac eiddo arall, ac ynghylch ffyrdd i ddianc mewn achos o dân

Fel y disgrifiwyd eisoes yn yr adran, mae ein hegwyddorion ynghylch materion ieithyddol uwchlaw ein holl bolisiâu ynghylch penodi a datblygu staff. Rydym yn ymdrechu i neilltuo staff dwyieithog i'r swyddi hynny lle mae cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd (wyneb yn wyneb neu ar y ffôn), ac mae gennym ganllawiau ynghylch penodi staff newydd i swyddi sy'n gofyn am gyswllt rheolaidd â'r cyhoedd.

Yn unol â'r canllawiau hyn, mae sgiliau dwyieithog yn anhepgor i staff mewn swyddi lle mae disgwyl iddynt roi cyngor neu hyfforddiant i'r cyhoedd. Mae cymorth i ddysgu Cymraeg ar gael i aelodau o'r staff sydd heb sgiliau dwyieithog eto.

Fodd bynnag, gan na allwn warantu'n llwyr y bydd y staff y bydd aelodau o'r cyhoedd yn dod i gysylltiad â hwy am y tro cyntaf yn ddwyieithog, ein polisi yw cynnig dewis iaith ar gyfer apwyntiad yn y dyfodol i'r cyhoedd, lle bo hynny o fudd. Mae ein canllawiau'n rhoi cyfarwyddyd clir ynghylch ffyrdd i ddelio â gohebiaeth, cyfathrebu, cyfarfodydd ac apwyntiadau.

Fel rhan o'n strategaeth ar gyfer ymgorffori sgiliau dwyieithog yn rhan o'n IPDS, rydym bellach yn gweithio tuag at allu ystyried pa mor ddymunol yw sgiliau dwyieithog ar gyfer cyflawni rolau unigol yn effeithiol o fewn y sefydliad. Trwy IPDS, rydym yn gweithredu system gyson a gwrthrychol o asesu gallu ieithyddol, a fydd yn y pen draw yn rhoi darlun cywir inni o ba mor ddwyieithog yw ein Gwasanaeth.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Pob blwyddyn, fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y Gwasanaeth, byddwn yn gosod targedau i gynyddu cyfran ein staff sydd â'r sgiliau dwyieithog angenrheidiol fel rhan o'r broses flynyddol o osod targedau, gyda'r nod o gynyddu cyfran y staff sy'n gallu darparu ein gwasanaethau trwy gyfrwng y ddwy iaith. Tra yn y gorffennol y bu gosod targedau'n ymwneud â sgiliau dwyieithog yn ymarferiad ar wahân ac ar ei ben ei hun, ond bellach mae dealltwriaeth fwy eglur o lawer o'r berthynas sydd rhwng cyrraedd targedau eraill o ran cyflwyno gwasanaeth a chyrraedd targedau sgiliau iaith. Bydd ffigurau'n ymwneud â niferoedd a lleoliadau swyddi lle ceir staff sydd â'r sgiliau iaith angenrheidiol yn cael eu cynhyrchu gan systemau cofnodi mewnol, a byddant yn goleuo'r broses o osod targedau yn gyffredinol.

3. Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyn bywyd ac eiddo mewn achos o dân

Yn ogystal ag atal tanau, rydym hefyd yn ymateb i'r rhai sydd eisoes wedi digwydd. Fel arfer,

mae ein hymateb i alwadau tân yn dechrau pan dderbynnir galwad frys gan ein Hystafell Reoli. Mae staff dwyieithog yn yr ystafell reoli yn wastad ar gael i drin yr alwad ym mha bynnag iaith, yn cynnwys darparu arweiniad ar aros yn fyw i bobl sydd yn sownd neu mewn cyfyngder. Bydd diffoddwyr tân sy'n delio â'r tân ei hun yn gweithio fel tîm, gyda phob unigolyn wedi ei hyfforddi i'r safonau angenrheidiol. Mewn rhai amgylchiadau, caiff rheolwyr o lefel uwch eu galw i gymryd rheolaeth strategol o'r sefyllfa.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Bu cyfansoddiad ieithyddol criwiau diffodd tân a'r swyddogion sy'n eu cyfarwyddo yn gyffredinol yn ystyriaeth eilaidd, ac eithrio mewn perthynas â rôl atal tân. Mae polisïau recriwtio a datblygu ar gyfer diffoddwyr tân wedi canolbwyntio'n bennaf ar sgiliau a galluoedd ar y safle tân.

Tra bo'r Gweithgor Iaith wedi dod yn gynyddol gyfrannog yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ar yr ochr weithredol gyda rhai sy'n delio â phobl mewn digwyddiadau, byddwn yn ceisio atgyfnerthu'r arfer hwn o fewn ein Strategaeth Sgiliau Iaith – sydd â'r nod o gynyddu'n raddol y proffil iaith sydd wrth wraidd y gwasanaeth, fel bod gan griwiau sy'n mynd at ddigwyddiadau tân ddigon o sgiliau dwyieithog i ddelio â phobl sy'n sownd mewn digwyddiad brys.

Pan fyddwn yn adnabod diffyg difrifol yn y gallu dwyieithog priodol mewn un ardal na ellir ei ddatrys trwy hyfforddiant, byddwn yn ymchwilio i weld a ellir aiddosbarthu staff er mwyn cywiro'r diffyg.

4. Gwneud darpariaeth ar gyfer achub ac amddiffyn pobl rhag niwed difrifol mewn achos o ddamwain ar y ffordd

Mae'r criwiau brys yn cydnabod gwerth gallu cyfathrebu â phobl sy'n sownd mewn cerbyd yn yr iaith y maent fwyaf cysurus ynnddi. Gellir cysuro, tawelu meddwl, a rhoi gwybod beth sy'n mynd ymlaen tra maent yn cael eu tynnu allan. Oherwydd natur hirfaith rhai digwyddiadau sy'n ymwneud â thynnu pobl allan, gellid ystyried sgiliau iaith criwiau diffodd tân hyd yn oed yn fwy pwysig wrth ddelio â digwyddiadau ar y ffordd na'r rhai lle mae'r un criwiau'n ymateb i danau. Rydym yn ymateb i ystod eang o argyfyngau nad ydynt yn ymwneud â than a sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai brys, megis gollyngiadau cemegol, llifogydd ac achubiadau.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Fel y disgrifiwyd eisoes yn yr adran sy'n ymwneud â chriwiau diffodd tân, dylai argaeledd sgiliau dwyieithog ymhlith criwiau sy'n gyfrifol am achub pobl o gerbydau gynyddu'n raddol o ganlyniad i fabwysiadu ein Strategaeth Sgiliau Iaith. Yn ymarferol, yr un bobl sy'n ymateb i ddigwyddiadau brys a digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys, felly mae ein cynlluniau o ran y pwnc penodol hwn fel y rhai ar gyfer y staff sy'n ymwneud â delio â thanau.

5. Cysylltiadau Cyhoeddus

Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl lefel uchel o onestrwydd a thryloywder gan ei Wasanaeth Tân ac Achub, ac mae'n gynyddol ddisgwyl bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'n gweithredu.

Dros y blynyddoedd, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi sefydlu enw da iawn, ond rhaid inni dderbyn na allwn gymryd hyn yn ganiataol, a bod cysylltiadau cyhoeddus da yn allweddol i gynnal yr enw da hwnnw.

Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn agored i'r cyhoedd, a gellir cynnal pob trafodaeth yn y naill iaith neu'r llall. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ymhob cyfarfod, er mwyn i siaradwyr allu dewis pa iaith y dymunant ei defnyddio. Gwneir datganiad ar ddechrau pob cyfarfod cyhoeddus i hysbysu bod pawb yn rhydd i gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd o leiaf un aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol i groesawu a chynorthwyo'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yr Awdurdod.

Yn gyffredinol, mae gohebiaeth a deunyddiau ysgrifenedig (ar bapur neu yn electronig) yn cael eu dosbarthu'n ddwyieithog ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod a'i is-bwyllgorau. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, nid yw hyn yn bosib (er enghraifft gohebiaeth neu wybodaeth o ffynonellau a dderbyniwyd yn Saesneg yn unig toc cyn cyfarfod).

O dro i dro, lle byddai'n afresymol neu'n afrealistig cyfieithu oherwydd cyfyngiad amser neu gyfyngiad arall, cyflwynir dogfennau drafft neu ddogfennau technegol cymhleth yn Saesneg yn unig at ddiben cymeradwyo neu drafod cyn llunio adroddiad dwyieithog terfynol. Mewn achos o'r fath, rhaid rhoi esboniad dilys o'r amgylchiadau am y diffyg dogfennau dwyieithog i'r Aelodau.

Cyfarfodydd cyhoeddus eraill

Mae' egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gydradd yn ymestyn i bob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan yr Awdurdod neu'r Gwasanaeth, neu ar eu rhan. Bydd pob hysbysiad ynghylch cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Rhoddir croeso cyfartal i gyfraniadau yn y naill iaith a'r llall, a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn i siaradwyr allu dewis pa iaith y dymunant fynegi eu hunain ynddi.

Gosodir arwyddion mewn lleoliadau addas y tu allan i fan cyfarfod neu ar stondin arddangos neu gerbyd addysgol i roi gwybod i aelodau o'r cyhoedd fod croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith i gyfathrebu â'r Awdurdod neu'r Gwasanaeth. Lluniwyd canllawiau gan y Gwasanaeth ar drefnu a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus.

Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gydag unigolion

Lluniwyd canllawiau ar gyfer cyfarfod a gwneud apwyntiadau gydag aelodau o'r cyhoedd.

Trwy our Strategaeth Sgiliau iaith, rydym yn ceisio cynyddu argaeledd aelodau o'r staff sy'n gallu delio ag aelodau o'r cyhoedd yn eu dewis iaith.

Trwy gynyddu nifer y gweithwyr sydd â digon o sgiliau iaith i gyflawni eu gwaith trwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall, ein nod yw gallu cynnig dewis gwirioneddol rhwng dwy iaith i unrhyw aelod o'r cyhoedd. Ni chaiff defnyddio'r dewis hwn arwain at ddirywiad yn safon y gwasanaeth a dderbynnir.

Bydd cyfarfodydd a gynhelir trwy gynhadledd fideo'n cael eu trin yn ôl yr un meini prawf ieithyddol â chyfarfodydd a gynhelir yn bersonol.

Lle nad oes aelodau o'r staff ar gael i drafod y mater yn newis iaith yr aelod o'r cyhoedd, gall ef neu hi ddewis aildrefnu'r apwyntiad neu barhau yn ei (h)ail iaith.

Galwadau ffôn brys (999)

Trwy recriwtio, datblygu a neilltuo staff yn ofalus, rydym yn trin pob galwad frys yn unol â gweithdrefnau safonol, boed yr alwad yn cael ei chynnal yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae gofyn i staff yn ein Canolfan Cyfathrebu ar y Cyd allu trin galwadau yn y naill iaith a'r llall, a dim ond staff dwyieithog a gaiff eu recriwtio i ddelio â galwadau brys - polisi sydd yn ei le ers 1996.

Mae pob aelod o'r staff, yn cynnwys staff yr ystafell reoli, wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a chynghor ynglŷn â'r ffordd i adnabod enwau lleoedd Cymraeg pan ydynt yn wahanol i'r rhai Saesneg (e.e. Llanelwy a St. Asaph)

Galwadau ffôn brys

Caiff galwadau ffôn nad ydynt yn rhai brys eu trin yn unol â gweithdrefnau safonol, boed nhw'n cael eu derbyn gan siaradwr Cymraeg neu Saesneg. Lluniwyd canllawiau ar gyfer y staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i sicrhau bod pobl sy'n cysylltu â ni yn y Gymraeg yn cael ymateb yr un mor broffesiynol â'r rhai sy'n cysylltu â ni yn Saesneg. Mae gofyn i staff y pwynt cysyllt cyntaf roi cyfarchiad dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Mae gofyn i staff a gyflogir mewn derbynfydd gael sgiliau Cymraeg Lefel 3 – 5 ALTE ar gyfer eu swyddi. Mae staff sy'n gweithredu switsfyrddau'n ddigon cyfarwydd â sgiliau iaith rheolwyr, felly os bydd rhywun sy'n galw yn dymuno bwrw ymlaen ag ymholiad yn y Gymraeg, gellir trosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adran berthnasol. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol er mwyn ymdrin â'r ymholiad, bydd y sawl sy'n galw'n cael esboniad cwrtais a dewis ffordd sut i frwr

ymlaen. Efallai y bydd y sawl sy'n galw yn dymuno bwrw ymlaen â'r alwad yn Saesneg neu'n cytuno i drefniant arall addas (e.e. i dderbyn ymateb ysgrifenedig yn y Gymraeg, neu i siaradwr Cymraeg gysylltu'n ôl ar ddyddiad yn ddiweddarach).

Lleisbost a pheiriannau ateb

Lluniwyd canllawiau ar gyfer y staff sy'n gadael negeseuon awtomatig i rywun sy'n ceisio cysylltu â hwy ar y ffôn pan ydynt ar gael i ateb yr alwad. Bydd pob peiriant ateb ar rif ffôn a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yn cynnwys neges ddwyieithog. Bydd gofyn i aelodau unigol o'r staff sydd â digon o sgiliau dwyieithog recordio cyfarchiad ar eu peiriant ateb a/neu ffôn symudol yn y ddwy iaith, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Caiff aelodau unigol o'r staff sydd heb fod yn siarad Cymraeg eu hannog yn gryf i adael neges ddwyieithog, a darperir cymorth i unrhyw un sydd heb fod yn sicr o'r derminoleg gywir i'w defnyddio.

Gohebiaeth

Lluniwyd canllawiau ar gyfer gohebu ag aelodau o'r cyhoedd trwy llythyr, ac mae hynny'n sicrhau bod unrhyw un sy'n anfon llythyr atom yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn derbyn ymateb yn yr iaith honno. Hefyd, os anfonir llythyr yn dilyn sgwrs, bydd y llythyr yn iaith y sgwrs honno, oni ofynnir yn wahanol.

Os nad yw'n amlwg pa iaith a ddymunir, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog.

Mae papur pennawd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnwys brawddeg sy'n nodi bod croeso i aelodau'r cyhoedd ysgrifennu at yr Awdurdod yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd geiriad yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapurau safonol yr Awdurdod.

Mae gwasanaethau ein Cyfieithydd mewnol ar gael i bob aelod o'r staff.

Yn electronig

Rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd i ddefnyddio technoleg i gyflwyno gwasanaethau a negeseuon diogelwch tân, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, yn fwy diweddar. Wrth gyflwyno systemau electronig newydd, rydym yn wastad yn ceisio sicrhau bod y ffordd o gyfathrebu ar gael yn y ddwy iaith.

Bydd gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd trwy wefan yr Awdurdod yn cael eu trin yn ôl yr un meini prawf ieithyddol â'r gwasanaethau a ddarperir trwy ffordd arall. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o ffurflenni electronig ar gyfer y cyhoedd. Byddwn yn cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i weithredu'r safonau sydd yn ei Strategaeth Technoleg Gwybodaeth lle bo'n briodol i waith yr Awdurdod o ran gweithredu ei Gynllun Iaith.

Yn fwy diweddar, rydym wedi dechrau rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo gweithle dwyieithog, ac wedi sefydlu gwasanaeth mewnrwyd dwyieithog ar gyfer y staff.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Fel rhan o'n hymdrechion i hyrwyddo gwasanaeth dwyieithog, ac yn ogystal â llofnodion e-bost personol dwyieithog, rydym yn annog staff i ddefnyddio negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwyieithog.

Ymgynghori â'r cyhoedd

O bryd i'w gilydd, rydym yn cynnal arolygon barn i fesur barn y cyhoedd ynghylch ein gwasanaethau. O dro i dro, bydd yr arolygon barn yn cynnwys cwestiynau ynghylch lefelau bodlonrwydd â'n gwasanaethau dwyieithog. Bydd arolygon barn cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

Mae asesu ein llwyddiant ein hunain, neu beidio, ym maes cysylltiadau cyhoeddus yn gallu bod yn broblemus o ran mesur a chofnodi rhyngweithiadau unigol gydag aelodau o'r cyhoedd. Yn y gorffennol, rydym wedi dibynnu ar gyfrifon meintiol o fethiannau neu ddiffygion (megis yn ôl cwynion), fodd bynnag, yn fwy diweddar, rydym wedi dechrau monitro nifer y 'trawiadau' ar ein gwefan Gymraeg, nifer yr ymholiadau gan y wasg yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg, yn ogystal â nifer y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg gan ein staff yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd.

Rydym hefyd yn mynychu digwyddiadau Cymraeg, megis yr Eisteddfodau a'r sioeau amaethyddol yng Nghymru, a chaiff hyn ei staffio gan siaradwyr Cymraeg.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Mae lle i wella eto o ran pa ddangosyddion perfformiad yr ydym yn eu defnyddio i asesu ein llwyddiant ein hunain, a'r Gweithgor Iaith mewnol, dan gyfarwyddyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fydd yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir yr asesiadau ar adegau addas, ac am lunio a monitro cynlluniau gweithredu sy'n codi o'r canlyniadau. Darperir adroddiadau i'r Grŵp Gweithredol, a fydd hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo'r cynlluniau gweithredu arfaethedig.

DELWEDD GYHOEDDUS

Ein hegwyddorion

Mae ein delwedd gyhoeddus fel Awdurdod sy'n gweithredu'n ddwyieithog yn gymorth inni gyrraedd y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Ein prif nod yw cadw pobl yn ddiogel, a thrwy gyfathrebu'n effeithiol bob amser yn y ddwy iaith, gallwn wella ein hygyrchedd i'n cymunedau.

Yn ein tyb ni, mae'n gyfrifoldeb arnom fel gwasanaeth cyhoeddus i adlewyrchu'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu, er mwyn inni allu darparu gwasanaethau rhagorol yn yr ardal drwyddi draw.

Bydd delwedd a hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod yn ddwyieithog bob amser.

Arwyddion

Bydd pob arwydd sy'n perthyn i'r Gwasanaeth, yn cael eu cynhyrchu ganddo, neu'n cael eu codi ganddo, yn ddwyieithog. Lle bo arwyddion yn bodoli ar wahân ar gyfer pob iaith, bydd y ddau yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Rhoddir canllawiau ar y gofynion dwyieithog i bob asiant sy'n ymwneud â chynhyrchu'r arwyddion hyn.

Cerbydau

Mae unrhyw ysgrifen ar gerbydau'r Gwasanaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn uchaf neu i'r chwith (i'r darlennydd). Rhoddir canllawiau ar ofynion dwyieithog i gyflenwyr y cerbydau.

Cyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

Lluniwyd canllawiau ar gyfer creu cyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Bydd yr holl gyhoeddiadau a'r deunyddiau argraffedig ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd ansawdd yr ysgrifennu a'r mynegiant o'r un safon yn y ddwy iaith.

Fel arfer, argreffir cyhoeddiadau dwyieithog gefn wrth gefn. O dro i dro, fodd bynnag, fe allai fod yn fwy priodol cyhoeddi dwy fersiwn ar wahân – un ymhob iaith (e.e. llyfrau addysgol i ysgolion).

Mewn achosion lle nad oes dewis ond cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid dosbarthu'r ddwy fersiwn gyda'i gilydd, a rhaid i'r ddwy fod ar gael yr un fel y llall. Bydd y ddwy fersiwn yn cynnwys datganiad fod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall hefyd.

Mewn achos o brisio dogfen a gynhyrchir gan yr Awdurdod, ni fydd pris fersiwn Gymraeg yn uwch na phris y fersiwn Saesneg, ac ni fydd pris fersiwn ddwyieithog yn uwch na phris yr un ddogfen mewn un iaith yn unig.

Mewn achos go annhebygol o gyhoeddi dogfen i'r cyhoedd yng Nghymru sy'n arbennig o dechnegol ac arbenigol (e.e. yn ymwneud â systemau neu offer cyfrifiadurol), sy'n annhebygol o fod o ddiddordeb i neb ond y darllenwyr mwyaf arbenigol, fe allai gael ei dosbarthu yn y fersiwn Gymraeg neu Saesneg wreiddiol ond gyda chrynodeb o'r cynnwys yn yr iaith arall hefyd.

Pan ydym yn dosbarthu cyhoeddiadau ar ran sefydliad neu asiantaeth arall, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod ar gael yn y ddwy iaith

Ffurflenni a deunyddiau esboniadau cysylltiol

Caiff pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Fel arfer, bydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr ar yr un ffurflen neu ddeunydd.

Pan nad yw hynny'n bosib (e.e. oherwydd trafferthion argraffu neu ddylunio), byddwn yn llunio ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân. Caiff y ddwy fersiwn eu cyhoeddi ar yr un pryd, a byddant ar gael fel ei gilydd ac yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd yn y post neu dros y cownter. Bydd pob ffurflen yn cynnwys brawddeg i gadarnhau ei bod ar gael yn yr iaith arall hefyd. Darperir yr hyfforddiant priodol i'r staff ynglŷn â chyflwyno ffurflenni'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru.

Cynlluniau ar gyfer gwella

I gyd-fynd â'n pwyslais diweddar ar hyrwyddo gweithle dwyieithog, bydd ffurflenni mewnol eraill at ddefnydd staff e.e. salwch, ffurflenni treuliau, hefyd yn cael eu cyfieithu ac yn cael eu darparu yn y Gymraeg.

Deunyddiau amrywiol eraill

Bydd eitemau megis gwahoddiadau, poster, sicciau, trwyddedau, cardiau, bwydlenni, amserlenni, derbynebau, anfonebau a thalebau i gyd yn ddwyieithog. Fel rheol, bydd y ddwy iaith ochr yn ochr ar yr un eitem. Lle nad yw hyn yn bosib (e.e. am resymau argraffu neu ddylunio), bydd y ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, ar gael yr un fel y llall, ac yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd.

Gwisgoedd

Bydd gwisgoedd y Gwasanaeth yn ddwyieithog, gyda'r fersiwn Gymraeg yn ymddangos uwchben neu (i'r darlennydd) i'r chwith o'r fersiwn Saesneg.

Hysbysebu a chyhoeddusrwydd

Cynhelir pob gweithgaredd cyhoeddus a drefnir yng Nghymru gan yr Awdurdod (e.e. arddangosfeydd, ymgyrchoedd, cynadleddau) yn ddwyieithog oni bai fod yr Awdurdod yn cytuno i gais penodol dilys i gynnal y gweithgaredd trwy gyfrwng un iaith yn unig. Bydd hyn yn cael ei ehangu i hysbysebu'r gweithgaredd cyhoeddus ei hun, negeseuon am y gweithgaredd ar fyrddau gwybodaeth, baneri, bathodynnau, balwŷns, ayyb, yn cynnwys negeseuon electronig.

Hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yng Nghymru

Rydym yn sicrhau bod hysbysiadau cyhoeddus swyddogol yr Awdurdod a hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr, boed hynny yn y wasg, ar ffurf electronig, ar negesfyrddau neu fel arall.

Rydym yn sicrhau bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran diwyg, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, gyda'r fersiwn Gymraeg naill ai uwchben neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg.

Mae'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu i contractwyr ac eraill wedi ei diweddarau er mwyn ail-bwysleisio pwysigrwydd ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog. Mae mwy o bobl bellach yn defnyddio'r we i ymchwilio ac i gysylltu - felly, rydym yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd i wella effeithiolrwydd ein gwefan i hyrwyddo ein delwedd gyhoeddus fel sefydliad dwyieithog

Cynlluniau ar gyfer gwella

Rydym yn cydnabod y gallem, o bryd i'w gilydd, fod yn gwneud mwy i hyrwyddo ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog, yn enwedig o ran mentrau lleol byrhoedlog, ac yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn llai amlwg. Felly, rydym yn cryfhau'r canllawiau yr ydym yn eu darparu yn hyn o beth, er mwyn cadarnhau'r hyn y mae'r Gwasanaeth yn ei ddisgwyl ohonynt.

Y GWEITHLU

Ein hegwyddorion

Nod yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw cynnig ei wasanaethau i aelodau'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis, lle bo hynny'n bosib yn ymarferol.

I'r diben hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod staff digonol â'r sgiliau dwyieithog angenrheidiol, yn ogystal â sgiliau perthnasol eraill a'r lefelau priodol o awdurdod, ar gael i ateb gofynion ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun.

1. Strategaeth Adnoddau Dynol

Ein nod yn y pen draw yw gallu cynnig gwir ddewis iaith, yn seiliedig ar ddewis y cyhoedd yn hytrach nag argaeledd swyddogion.

Mae gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant ar bolisiau dwyieithog y Gwasanaeth a Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod ar gael i bawb, ac rydym yn rhagweld y bydd codi proffil a gwella mynediad at y Cynllun yn benodol yn cyfrannu at hyn. Mae pob aelod o'r staff, beth bynnag eu rôl, yn ymwybodol o'r gofyn i gadw ar yr egwyddor o drin y ddwy iaith ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Nod ein strategaeth gyffredinol yw sicrhau bod pob aelod o staff y Gwasanaeth Tân ac Achub yn llwyr ymwybodol o'u dyletswyddau, ac yn gallu: cyfrannu i wireddu gweledigaeth yr Awdurdod o gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd; a gweithredu yn unol â'r

egwyddor fod y Gymraeg a'r Saesneg, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn cael eu trin ar sail gyfartal. Pwysleisiwyd hyn trwy sesiynau hyfforddiant iaith i'r holl staff.

Mae awdit llwyr o ofynion dwyieithog gweithleoedd a swyddi o fewn y Gwasanaeth wedi adnabod pa rolau y dylid eu dynodi'n rhai sydd â'r Gymraeg yn hanfodol, ac yn ddiweddar rydym wedi ymestyn hyn trwy glustnodi galluoedd Lefel 1 - 5 ALTE ar gyfer pob math o rôl, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r safon o Gymraeg sydd ei hangen.

Cynhaliwyd awdit o sgiliau dwyieithog y staff presennol, ac mae tua 80% o staff y Gwasanaeth wedi nodi pa lefel o Gymraeg y credant sydd ganddynt. Ers hynny, sefydlwyd yr wybodaeth hon yn ofyniad o'r broses Adolygiad Datblygiad Unigol ar gyfer yr holl staff, a bellach caiff ei diweddarau'n barhaus.

Mae'r Gwasanaeth wrthi'n cymharu'r anghenion o ran sgiliau swyddi gyda'r adnoddau presennol o ran sgiliau, a hynny er mwyn canfod pa waith sydd ei angen i lenwi'r bwch. Y nod yw llenwi'r bwch yn raddol, gan gael persbectif tymor trwy sefydlu arferion diffiniedig o ran hyfforddi a chefnogi staff, recriwtio, ad-drefnu ac adleoli staff.

Caiff hyn ei gyflawni trwy'r broses gynefino ar gyfer gweithwyr newydd, trwy sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r holl staff presennol a thrwy adolygiadau datblygu unigol. Bydd ein hadran Adnoddau Dynol yn darparu adroddiadau ansoddol a meintiol rheolaidd am y gweithgarwch hwn i'w ystyried gan y Gweithgor Iaith mewnol.

Rydym yn cydnabod y gallai cael sgiliau Cymraeg fod yn her i rai unigolion. Rydym wedi llwyr ymrwymo i gefnogi unigolion o'r fath, a'u cynorthwyo, gymaint ag y bo modd, i gyrraedd y lefelau angenrheidiol.

Defnyddir ein Strategaeth Sgiliau Iaith i sicrhau bod y sgiliau iaith angenrheidiol ar gael o fewn y gweithlu. Prif nod y strategaeth fydd sicrhau bod digon o weithwyr â sgiliau dwyieithog ar gael i lenwi'r swyddi hynny lle mae cyswllt â'r cyhoedd yn rhan o'u dyletswyddau arferol. Mae un elfen o'r strategaeth yn ymwneud â materion olyniaeth, a hynny er mwyn osgoi prinder sgiliau yn y dyfodol.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Bydd meddalwedd a gyflwynwyd yn 2006 yn caniatáu inni fonitro sut mae staff sydd â'r sgiliau i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith wedi eu neilltuo, a thrwy hynny, bydd yn haws inni gywiro unrhyw ddiffygion cyfredol neu rai a allai godi yn y dyfodol. Bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Awdurdod, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol ynghylch proffil ieithyddol y gwasanaeth a'i berfformiad. Mae hyn yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynir yn rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

2. Penodi a dyrchafu staff

Ystyrir gallu ieithyddol yn sgil fel unrhyw sgil arall wrth benodi staff. Bydd gan yr aelodau o'r staff sy'n ymwneud â'r broses recriwtio fynediad at ganllawiau sy'n nodi polisi recriwtio'r Awdurdod.

Ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn sgil 'hanfodol' neu'n sgil 'dymunol' ar gyfer rhai swyddi. Yn y cyd-destun hwn, mae 'hanfodol' yn golygu bod y gallu i siarad Cymraeg yn hollol angenrheidiol (Lefel 3 - 5), ac mae 'dymunol' yn golygu y byddai'n fanteisiol penodi siaradwr Cymraeg, er nad yw hynny'n gwbl angenrheidiol (Lefel 1 - 3).

Y prif ffactorau i'w hystyried wrth asesu gofynion ieithyddol swyddi yw:

- maint ac amledd y cyswllt â'r cyhoedd
- y gallu presennol yn yr adran / tîm / uned / swyddfa i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
- yr arbenigedd sydd ei hangen ar gyfer y swydd (h.y. efallai y byddai sgiliau Cymraeg yn allweddol, megis gweithio gyda phlant neu'r henoed)
- os yw'r swydd mewn ardal arbennig, yna gwneir asesiad o natur ieithyddol yr ardal.

Mewn sefyllfa lle bo dau ymgeisydd am swydd lle byddai'r Gymraeg yn 'ddymunol' yn meddu ar yr un cymwysterau a phrofiad, bydd y gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried. Os penodir rhywun sydd heb y sgiliau dwyieithog y dymunir eu cael ar gyfer y swydd, caiff yr ymgeisydd llwyddiannus ei annog i ddysgu Cymraeg.

Ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn gymhwyster sy'n gyfartal i unrhyw sgil hanfodol arall i unrhyw un a gyflogir mewn swydd Lefel 3 - 5. Petai trafferth penodi siaradwr Cymraeg sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer swydd o'r fath, gosodir amod i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu Cymraeg i'r lefel angenrheidiol o fewn cyfnod o amser y cytunir arno.

Yn fwy diweddar, gyda mabwysiadu ein Strategaeth Sgiliau Iaith, sefydlwyd rhagor o ganllawiau sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg yr aelod o'r staff sy'n ceisio dyrchafiad. O Ionawr 2010 ymlaen, bydd gofyn i staff sy'n ceisio dyrchafiad o fewn y Gwasanaeth lwyddo yn y prawf Lefel 2 i fod yn llwyddiannus.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Er ein bod yn annog staff i ddysgu Cymraeg, byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gofynion newydd ar gyfer rhai swyddi, o leiaf, lle byddai gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus i swyddi Lefel 1-3 ymrwmo i gyrraedd lefel o allu yn y Gymraeg wedi ei diffinio o flaen llaw, a hynny o fewn amser y cytunir arno.

3. Amrywiol eraill

Hysbysebu swyddi yn y wasg

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod hysbysebion swyddi sy'n ymddangos mewn papurau newydd ac ar wefannau yn ymddangos yn neu ar y rhai mwyaf priodol ar gyfer y swydd honno, gan mai'r rheini sydd fwyaf tebygol o ddenu ymgeiswyr addas. Fel arfer, bydd hysbysebion swyddi'n ymddangos yn ddwyieithog, ond ar adegau fe allent ymddangos yn Gymraeg yn unig, er enghraifft ar gyfer swydd sydd wedi ei dynodi'n un â Lefel 3 - 5 / 'Cymraeg yn hanfodol' a'r hysbyseb yn ymddangos mewn papur newydd Cymraeg ei iaith neu ar wefan Gymraeg.

Ymgyrchoedd recriwtio

Caiff ymgyrchoedd recriwtio eu cynnal yn ddwyieithog, a bydd yr wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r pecynnau recriwtio yn mynegi ymrwymiad yr Awdurdod i gael gweithlu sydd â'r sgiliau priodol i gyflwyno gwasanaethau'n ddwyieithog.

Hefyd, o Ionawr 2009 ymlaen, mae gofyn i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ddangos sgiliau cwrtseisi sylfaenol Lefel 1 wrth ymuno â'r Gwasanaeth, ac o Ionawr 2010 ymlaen, caiff hyn ei ymestyn i Lefel 2.

Ffeiriau swyddi / cynadleddau gyrfaoedd

Mae'r Awdurdod yn croesawu pobl o ystod o wahanol gefndiroedd fel gweithwyr, ac mae hynny'n cynnwys ymrwymiad i dargedu siaradwyr Cymraeg pan fo hynny'n briodol. Bydd gofyn i'r staff sydd wrth law mewn ffeiriau swyddi a chynadleddau gyrfaoedd gyfleu i ddarparu weithwyr posib fod yr Awdurdod wedi ymrwmo i gael gweithlu amrywiol, yn cynnwys ei fod wedi ymrwmo i gyflogi nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg i gyflwyno gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dysgu Cymraeg

Rydym yn ymdrechu i gynnal dosbarthiad priodol o weithwyr dwyieithog trwy annog staff presennol mewn swyddi lle tybiwyd bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol i ddysgu Cymraeg; neu trwy adleoli staff, yn wirfoddol, lle bo hynny'n bosib. Caiff hyfforddiant a datblygu mewn sgiliau iaith Gymraeg eu cynllunio a'u hariannu fel unrhyw weithgarwch hyfforddi a datblygu arall.

Caiff y staff presennol eu hannog i gyrraedd Lefel 1 yn y Gymraeg yn wirfoddol fel rhan o'r cwrs ymwybyddiaeth iaith. O Ionawr 2010 ymlaen, caiff hyn ei ymestyn i Lefel 2. Mae staff presennol sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yn cael eu hannog i gyrraedd Lefel 4/5 trwy hyfforddiant dwys.

Bydd yr wybodaeth a ddarperir fel rhan o broses IPDR yn cadw golwg ar y sgiliau sydd gan staff yn y Gymraeg, a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd y Gwasanaeth tuag at gael gweithlu sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol, ac i gynnig yr hyfforddiant Cymraeg priodol i'r rheini sydd heb gyrraedd y lefel sgil a ddymunir.

Hyfforddiant galwedigaethol

Gwneir asesiad o'r angen am hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu, er mwyn i'r staff allu derbyn hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff staff proffesiynol sy'n siarad Cymraeg eu hannog i fynychu seminarau a chyrsgiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu meysydd cysylltiol.

Mae dysgu Cymraeg yn rhan o raglen ddatblygu'r Gwasanaeth. Rhoddir blaenoriaeth i'r aelodau o'r staff sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd, a bydd eu cynnydd wrth ddysgu'r iaith yn cael ei asesu'n rheolaidd.

Lle bo angen wedi ei adnabod, bydd Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth yn trefnu i aelodau o'r staff dderbyn cyrsiau hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'r rhain ar gael. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig ag aelodau o'r staff mewn swyddi arbenigol, a fydd yn cael eu hannog i fynychu seminarau a chyrsgiau yn eu meysydd pwnc penodol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Mae gofynion sgiliau dwyieithog swyddi penodol yn cael eu hintegreiddio i ddisgrifiadau swyddi. Hefyd, mabwysiadir geiriad hawdd ei ddeall mewn hysbysebion ar gyfer swyddi Lefel 3 - 5, a gosodir yr hysbysebion mewn papurau bro a gwefannau Cymraeg priodol. Er mwyn recriwtio siaradwyr Cymraeg, yn enwedig wrth ddenu ymgeiswyr i wneud cais am swyddi lle mae angen Lefel 3 - 5 yn y Gymraeg, bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn mabwysiadu disgrifiadau swyddi sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swyddi penodol yn hytrach na rolau generig.

Bydd pobl sy'n gwneud cais am swyddi Lefel 3 - 5 yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfweiliadau yn y Gymraeg.

Yn unol â'r rhagor o bwyslais ar hyrwyddo gweithle dwyieithog, gwneir rhagor o ymdrech i ehangu'r dewis o gyrsgiau hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ehangu hyn, lle bo modd, i hyfforddiant generig i staff e.e. hyfforddiant sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, cydraddoldeb.

PARTIÖN ERAILL

Ein hegwyddorion

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi ymrwymo i sicrhau (trwy drefniadau contractio) bod asiantau neu gontractwyr, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ein rhan neu dan ein goruchwyliaeth, yn bodloni'r elfennau hynny o'r Cynllun hwn sy'n ymwneud â'u gwaith hwy.

Rhaid i unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir ar ein rhan gyda pharti arall i gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru (contractwyr, partneriaethau ayyb) fod yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Mae unrhyw ofyniad ynghylch yr iaith Gymraeg yn cael eu nodi yn y dogfennau tendro a'r cytundebau.

Fel rhan o'n strategaeth ar gyfer cyfleu ein disgwyliadau i sefydliadau allanol sy'n ymroi i ddarparu gwasanaethau ar ein cyfer, rydym wedi adolygu'r holl ganllawiau ysgrifenedig yr ydym yn eu rhoi i asiantaethau a chontractwyr allanol ar hyn o bryd, er mwyn tynnu eu sylw at ofynion y Cynllun hwn. Caiff contractwyr ac eraill sy'n gweithio ar safleoedd y Gwasanaeth Tân ac Achub eu hannog i godi arwyddion dwyieithog.

CRYNODEB O FATERION CYDYMFFURFIO

1. Monitro

Bydd Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn cael ei fonitro fel mater o drefn.

Byddwn yn:

- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn canllawiau a chyfarwyddiadau ynghylch gweithredu'r Cynllun
- sicrhau bod perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro yn erbyn y Cynllun
- sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd gan yr Awdurdod i Fwrdd yr Iaith Gymraeg
- sicrhau bod ein proses fonitro'n cyfateb i'r broses sy'n ymwneud â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
- llunio adroddiad ynghylch ein perfformiad mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad perthnasol.

Bydd y cyfrifoldeb o fewn the Gwasanaeth am fonitro perfformiad yn erbyn gwahanol agweddau ar y Cynllun yn cael ei roi i'r grŵp neu'r unigolyn mwyaf priodol, fel y penderfynar Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) o bryd i'w gilydd. Bydd monitro ac adrodd yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad cyffredinol y Gwasanaeth.

Bydd y canlyniadau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael eu hadrodd yn ffurfiol ar adegau

addas i'r Grŵp Gweithredol a'r Awdurdod Tân, a hynny fel rhan o broses barhaus.

Bydd yr adroddiadau'n cynnwys adnabod unrhyw wendidau, problemau, cwynion neu ddiffygion eglur a ddaeth i'r amlwg o ran gweithrediad y Cynllun, ac unrhyw gamau a gymerwyd neu a gynlluniwyd i fynd i'r afael â hwy.

Bydd cwynion neu broblemau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun yn cael eu cofnodi a'u crynhoi yn yr wybodaeth ddiweddaraf reolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Fel lleiafswm, caiff yr agweddau canlynol eu monitro a'u hadrodd:

- Nifer a % y galwadau brys yr ymdriniwyd yn llwyddiannus â hwy yn y Gymraeg
- Canran a nifer y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safonau dynodedig)
- Nifer a % y rolau prif dderbynfa a ddynodwyd yn rhai sydd â'r Gymraeg yn hanfodol, ac wedi eu llenwi â staff dwyieithog
- Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster y cytunwyd arni.
- Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg – yn ôl adran, yn ôl graddfa swyddi, yn ôl gweithle.
- Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
- Cyfran a nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol sydd wedi eu llenwi â staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safonau dynodedig)
- Cyfran a nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi â staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safonau dynodedig)
- Nifer y cwynion o ffynonellau nad ydynt yn cynnwys staff neu eu cynrychiolwyr ynghylch gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg, a % y cwynion yr ymdrinwyd â hwy, yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod.
- Nifer y cwynion gan staff neu eu cynrychiolwyr ynghylch materion ieithyddol.
- Y perfformiad yn erbyn unrhyw darged a fabwysiedir fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad
- Nifer yr asiantaethau a'r contractwyr sy'n derbyn canllawiau i gydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Gwneir dadansoddiadau ystadegol o broffil ieithyddol yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, recriwtiaid ac ymadawyr hefyd, i'r graddau y mae'r systemau adnoddau dynol mewnol yn gallu casglu ac adrodd y data hwn.

Caiff amserlenni penodol yn rhestru targedau penodol i gyflawni gofynion y Cynllun eu llunio a'u diweddarau'n rheolaidd. Prif nod y targedau penodol fydd galluogi'r Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog sydd yn gyson o safon uchel ym mhob ardal yng Ngogledd Cymru.

Dyma'r weithdrefn adrodd ar gyfer cydymffurfio â'r Cynllun yn ystod y tair blynedd nesaf:

Bydd yr Adroddiad Monitro i'r Bwrdd yn ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- (i) Asesu p'un a yw'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun
 - Wrth berfformio yn erbyn yr amserlen a osodwyd
- (ii) Mesur ansawdd y gwasanaethau rheng flaen trwy gyfrwng y Gymraeg
 - Data
 - Asesiad gan y Bwrdd o'r gwasanaeth wyneb yn wyneb.
- (iii) Mesur p'un a yw rheolaeth / gweinyddiad y Cynllun yn ddigonol
 - Gwerthusiad gan y Bwrdd
 - Adroddiad ffocws ar y gwasanaethau a ddarperir ar ran y Gwasanaeth gan bartïon eraill
- (iv) Mesur pa mor ddigonol yw ei sgiliau iaith trwy gymharu angen ac adnodd
 - Sgiliau iaith data
 - Staff
- v) Pennod ar brif-ffrydio - enghreifftiau wedi eu profi o brif-ffrydio ar waith, yn cynnwys:
 - Camau neu fesurau corfforaethol a gymerir gan wasanaethau i hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
 - Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
 - Cynnydd yn nifer y Siaradwyr Cymraeg
- vi) Dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth yn ôl blaenoriaeth / targed;
 - Rôl craffu
 - a yw'r Gwasanaeth yn cyflawni'r hyn y ceisia ei wneud?

Bydd y Gwasanaeth yn crynhoi ei ganfyddiadau ar ffurf naratif byr (gyda thystiolaeth) i'w gyflwyno i'r Bwrdd, a bydd yn nodi unrhyw wendidau / risgiau sylfaenol, ac yn creu cynllun gweithredu o fesurau cywiro, ynghyd ag amserlen. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn tynnu sylw at gynnydd, arferion da a lefelau cydymffurfiad.

Lle bo gwendidau, cytunir ar gamau/cynllun datblygu gyda'r Bwrdd.

2. Cyhoeddi Gwybodaeth

Bydd gwybodaeth berthnasol yn glŷn â pherfformiad yr Awdurdod fel awdurdod dwyieithog yn ymddangos yn ei gyhoeddiadau corfforaethol ar gyfer y cyhoedd.

3. Cyhoeddusrwydd i'r cynllun

Bydd enw a manylion cyswllt y sawl a ddirprwyir gan y Prif Swyddog Tân i weithredu'r cynllun yn cael ei wneud yn hysbys i'r staff, y cyhoedd, ac unrhyw asiant neu gontractwr sy'n gweithio ar ran yr Awdurdod.

Bydd yr Awdurdod yn datgan yn eglur yn ei holl ddogfennau gwybodaeth a ddsberthir i'r cyhoedd yn rheolaidd, fod croeso i aelodau'r cyhoedd gysylltu â'r Gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd datganiad tebyg yn ymddangos ar wefan y Gwasanaeth.

Hefyd, fe'i gwneir yn hysbys i'r cyhoedd sy'n ymweld â stondinau arddangos (e.e. arddangosfeydd diogelwch tân), diwrnodiau agored, sioeau teithiol ac unrhyw ddiwyddiad cyhoeddus arall a drefnir gan y Gwasanaeth, fod croeso iddynt gysylltu â'r Gwasanaeth yn eu dewis iaith.

4. Cyfieithu

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi Cyfieithydd llawn amser ar gyfer gwaith cyfieithu, i gefnogi mentrau penodol, ac i gynghori ynghylch materion dylunio dwyieithog a darllen proflenni.

Comisiynir gwasanaethau cyfieithu allanol i gwrdd â llwyth gwaith mawr o ran cyfieithu

Bydd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd cyhoeddus

CYFRIFOLDEB AM WEITHREDU'R CYNLLUN

Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, neu fel y cyfarwydda'r Prif Swyddog Tân yn wahanol, fydd yn gyfrifol am weithredu a chefnogi'r cynllun.

MANYLION CYSYLLTU

Dylid anfon unrhyw sylwadau neu ymholiadau ynghylch y cynllun hwn neu ein polisi dwyieithog gael eu hanfon at:

Colin Hanks
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Ffôn: 01745 535250

Ebost: colin.hanks@nwales-fireservice.org.uk

CYNLLUNIAU AR GYFER GWELLA

Cam	Cyfrifoldeb	Erbyn pryd
Hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol		
Sefydlu gwobrau blynyddol i'r staff am 'Y Cyfraniad Pwysicaf i'r Gymraeg' a 'Dysgwr y Flwyddyn', i'w cyflwyno yn yr Eisteddfod	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Blynyddol
Defnyddio 'Y Fflam', cylchlythyr y staff, i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun – yn cynnwys 'Y Golofn Gymraeg' yn rheolaidd i hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant yn uniongyrchol i'r staff	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Bob dau fis
Parhau i ddatblygu a gwella fewnwyd ddwyieithog fel cymorth i hyrwyddo'r iaith ymysg y staff, a chynnig dewis iaith i siaradwyr Cymraeg	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Parhau i ddarparu 'Ymadrodd yr Wythnos' i ddysgwyr	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Wythnosol
Sicrhau bydd staff newydd sy'n ymuno â'r Gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith – bydd yr holl staff presennol wedi derbyn yr hyfforddiant yma erbyn mis Hydref 2009.	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol a Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Parhaus
Defnyddio'r cymeriad cartŵn 'Tanwen' i godi proffil y Cynllun	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Sefydlu hyrwyddwyr y Gymraeg ymysg y staff, gydag amcanion clir, ac yn cynnwys seminarau i hyrwyddwyr a chynlluniau mentora	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Ion 2011
Cyflwyno dewis iaith mewn detholiad o gyfarfodydd mewnol, gyda chwrs hyfforddiant penodol a llyfryn cynghorion	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Ion 2011
Cyflwyno cyfarchion 'allan o'r swyddfa' electronig dwyieithog	Rheolwr TGCh	Mawrth 2010
Cyflwyno ffurfienni AD dwyieithog (e.e. rhai salwch, amser yn gyfnewid, treuliau ayyb) a phecynnau cynefino ar gyfer staff newydd	Rheolwr AD	Mawrth 2010
Cyflwyno dewis ehangach o gyrsiau hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ehangu hyn, lle bo modd, i hyfforddiant generig i staff, e.e. hyfforddiant sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, cydraddoldeb.	Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Mawrth 2011
Hyrwyddo'r Cynllun yn Allanol		
Parhau i ddarparu gwefan ddwyieithog sy'n hyrwyddo ein delwedd gyhoeddus fel sefydliad dwyieithog ac yn darparu gwybodaeth gyfartal ar y Gwasanaeth a'i weithgareddau yn y Gymraeg a'r Saesneg	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Parhau i ddarparu arweiniad i asiantaethau a chontractwyr, gan dynnu eu sylw at ofynion y Cynllun hwn – i gynnwys gofyniad i bartïon eraill sy'n gweithio ar safleoedd y Gwasanaeth Tân ac Achub i godi arwyddion dwyieithog	Rheolwr Cyfleusterau	Parhaus
Parhau i hysbysebu'r gofyniad i staff newydd gyrraedd y lefel briodol yn y Gymraeg wrth ymuno â'r Gwasanaeth, a hynny ymhob ymgyrch recriwtio	Rheolwr AD	Parhaus

Defnyddio'r cyfryngau i hyrwyddo'r Cynllun (e.e. tynnu sylw at gerrig milltir arwyddocaol) ar bob cyfle	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Darparu'r Isadeiledd Mewnol		
Cyfrifoldeb am ddarparu ffynhonnell cynghorion ac arweiniad i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg	Cyfieithydd	Parhaus
Cyfrifoldeb am oruchwylio'r amrywiol dasgau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn y dyfodol, yn cynnwys cynnal cyfran ddigonol o staff sydd â sgiliau dwyieithog	Gweithgor Iaith	Parhaus
Sicrhau bod polisïau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a bod Adroddiadau Monitro ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael eu llunio erbyn mis Mehefin bob blwyddyn	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Gwireddu pethau		
Darparu'r cyngor a'r arweiniad priodol wrth ddatblygu polisïau a chynlluniau gwaith, ac adnabod ffyrdd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Cryfhau'r arweiniad a roddir i'r staff ynglŷn â hyrwyddo ein delwedd ddwyieithog gyhoeddus, er mwyn cadarnhau'r hyn y mae'r Gwasanaeth yn ei ddisgwyl ohonynt.	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Rhoi'r Strategaeth Sgiliau Iaith ar waith er mwyn sicrhau bod y sgiliau iaith angenrheidiol ar gael o fewn y gweithlu er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd. Bydd y strategaeth yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer y staff sydd yn hyderus wrth siarad neu ysgrifennu Cymraeg, a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau'n amlach. Parhau i gydnabod gofynion dwyieithog gweithleoedd a swyddi o fewn y Gwasanaeth, a'r galluoedd Lefel 1 - 5 ALTE a nodwyd ar gyfer pob math o rôl, a hynny i roi dealltwriaeth o safon y Gymraeg sydd ei hangen. Ehangu, rheoli a chynnal gwybodaeth ddiwedddaredig am sgiliau dwyieithog yr holl staff fel rhan o'r broses Adolygiad Datblygiad Unigol ar gyfer yr holl staff. Defnyddio'r wybodaeth uchod i geisio cynyddu nifer y staff sy'n cyrraedd sgiliau iaith Lefel 1 a 2 Mae gofyn i bob aelod newydd o'r staff allu dangos sgiliau cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg (Lefel 1) wrth ymuno â'r Gwasanaeth. Bydd pob aelod newydd o'r staff yn cael cyfnod penodol o amser wedi iddynt gael eu penodi i gyrraedd Lefel 2 (yn cynnwys 5 niwrnod o hyfforddiant ac ail CD hyfforddi) o Ionawr 2010 ymlaen. Caiff staff presennol eu hannog i gyrraedd Lefel 1 yn wirfoddol fel rhan o'r cwrs ymwybyddiaeth. Caiff staff presennol sydd â chyswllt uniongyrchol rheolaidd â'r cyhoedd eu hannog i gyrraedd Lefel 4 - 5 trwy hyfforddiant dwys. Bydd gofyn i staff sy'n ceisio dyrchafiad o fewn y Gwasanaeth lwyddo yn Lefel 2 i fod yn llwyddiannus. Bydd cyrsiau hyfforddiant yn galluogi staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg. Bydd Coleg Llysfasi yn darparu cyrsiau hyfforddiant Lefel 1 a 2 i staff, a CDau Cymraeg yn ategu'r rheini (asesir y 	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol, Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu, Rheolwr AD	Parhaus Parhaus Mawrth 2011 Mawrth 2013 Ion 2009 ymlaen Ion 2010 ymlaen Parhaus Parhaus Ion 2010 ymlaen Ion 2009 ymlaen

<p>profion yn annibynnol gan Goleg Llysfasi). Mae'r profion wedi eu cysylltu ag achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori'r Cynllun Iaith Gymraeg ym mholisi'r Gwasanaeth ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth • Targedu staff newydd i sefyll y profion newydd Lefel 1 a 2 a sefydlwyd yn y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth Sgiliau Iaith 		<p>Ion 2009 ymlaen</p> <p>Ion 2009 ymlaen</p>
Sicrhau bod unrhyw ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus am swyddi Lefel 3 - 5 yn ymrwmo i gyrraedd lefel gallu yn y Gymraeg wedi ei ddiffinio o flaen llaw, a hynny o fewn amser y cytunir arno	Rheolwr AD / Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Mawrth 2010
Cyflwyno a rheoli system effeithiol ar gyfer cynnal data diweddaedig am ofynion dwyieithrwydd yn y gweithle, sgiliau dwyieithog y staff presennol a'r hyfforddiant Sgiliau Iaith Gymraeg a gyflawnir gan y staff, ac adrodd ynghylch y data hwn yn rheolaidd trwy'r Grŵp Gweithredol	Rheolwr AD / Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Mawrth 2011
Mabwysiadu disgrifiadau swyddi sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swyddi penodol, yn hytrach na rolau generig	Rheolwr AD	Mawrth 2010
Mabwysiadu geiriad hawdd ei ddeall mewn hysbysebion am swyddi Lefel 3 - 5 swyddi, a hysbysebu yn y papurau bro a'r gwefannau priodol Cymraeg	Rheolwr AD	Mawrth 2010
Sicrhau bod dysgu Cymraeg yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddatblygu'r Gwasanaeth	Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Mawrth 2010
Cyflwyno asesiadau rheolaidd o Sgiliau Cymraeg ar gyfer y staff mewn swyddi a nodwyd yn rhai blaenoriaeth	Rheolwr AD / Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Mawrth 2010
Datblygu a mabwysiadu'r dangosyddion perfformiad priodol sy'n mesur cynnydd y Gwasanaeth tuag at gael gweithlu sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol	Gweithgor Iaith	Mawrth 2011
Hunanymwybyddiaeth barhaus		
Cyflwyno systemau i adnabod diffygion difrifol yn y gallu dwyieithog ymysg grwpiau o weithwyr, ac egluro'r weithdrefn ar gyfer datrys prinder trwy hyfforddi neu adleoli staff	Rheolwr AD / Rheolwr Datblygu y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu	Parhaus
Aseidiadau ansoddol i sefydlu pa mor effeithiol yr ydym yn perfformio yn y Gymraeg ym maes cysylltiadau cyhoeddus	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
Integreiddio'r gwaith o fonitro proffil ieithyddol y Gwasanaeth i'r prosesu blynyddol sy'n gysylltiedig â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Parhaus
Sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod, yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol am broffil ieithyddol y Gwasanaeth a'i berfformiad. Mae hyn yn ychwanegol at yr wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynir yn rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	Blynyddol

DANGOSYDDION PERFFORMIAD LLEOL

- Nifer a % y galwadau brys yr ymdrinwyd â hwy yn llwyddiannus yn y Gymraeg
- Canran a nifer y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safonau dynodedig)
- Nifer a % y swyddi mewn prif dderbynfeydd sydd wedi eu dynodi'n rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac wedi eu llenwi gan staff dwyieithog
- Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster y cytunwyd arni
- Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg – yn ôl adran, yn ôl graddfa'r swyddi, yn ôl gweithle.
- Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
- Cyfran a nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol sydd wedi ei llenwi â staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safonau dynodedig)
- Cyfran a nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi â staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safonau dynodedig)
- Nifer y cwynion o ffynonellau nad ydynt yn cynnwys staff na'u cynrychiolwyr ynghylch gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg, a % y cwynion yr ymdrinwyd â hwy, yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod.
- Nifer y cwynion gan staff neu eu cynrychiolwyr ynghylch materion ieithyddol.
- Y perfformiad yn erbyn unrhyw darged a fabwysiadwyd fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad
- Nifer yr asiantaethau a'r contractwyr sy'n derbyn canllaw ar gyfer cydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg.